CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg MAI 2022

PRESENNOL:
Cyng J Evans, J E Lewis, Miss B Owen, Mrs L Roberts, R R Roberts

YMDDIHEURIADAU:
Dim.

Dyma`r Cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ers y Covid 2019.
Croesawyd aelodau newydd i`r Cyngor gan y Clerc a`r Cynghorwyr presennol yn ategu.
Y Cynghorwyr yn arwyddo ffurflen Dartganiad Derbyn Swydd ar ddechrau y cyfarfod.
Ni ddewiswyd Cadeirydd ar y noson tan bydd Cyngor llawn. Y Clerc yn gweithredu.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 19eg EBRIL 2022 YN GYWIR. DERBYN YN LLAWN COFNODION AMSER Y COVID. Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng R R Roberts. Pawb yn hapus.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Dim.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2022/127. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   31 Bronheulog, Bodffordd
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R R Roberts.

2. VAR/2022/22. Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod 2 (Gwarediad dwr budur, dwr wyneb a dwr tir 03 (Cynlluniau a Gymeradwywyd o Caniatad Cynllunio Rhif FPL/2020/122 (Codi annedd gyda Balconi) er mwyn diwygio y Cynlluniau yn:
   Tyddyn Isaf, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J Evans eilio Cyng Miss B Owen. (Cyng J E Lewis dim yn cymryd rhan yn y drafodaeth)

PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2022/24. Stabl Newydd a Creu Mynedfa.
   Tyn Rhos, Trefor:-
   Caniatad.
   Y Cyngor yn methu a derbyn.
   Siomedig a`i penderfyniad (Gwarthys)
   Pwy bynnag sydd o`r Adran Priffyrdd wedi ei ganiatau ddim yn gweld. (A5 iddo gyda P45.)
   Methu a deall mae y Cyngor pam maen`t yn gofyn am sylwadau, bron bob tro os yr ydym ni yn gwrthwynebu mae`r Adran Cynllunio yn caniatau. Os yn cefnogi mae`r Adran Cynllunio yn gwrthwynebu.
   Mae`r adeiladau sydd yn Trefor wedi pasio i gyd hefo help y Cynghorydd Sirol er fod y Cyngor Cymdeithas wedi sefyll yn erbyn. Beth fedrwn alw hyn ond caniatad drws cefn.

4. Rheoleiddo a Datblygu Economaidd. Uwch Swyddog Cynllunio Gorfodaeth. S Colette Redfern. Ymchwilio i`r consyrns. Canlyniadau.
   Coedmor, Tynlon.
   i. Garej dwbl arall wedi cael ei adeiladu. Wedi cael caniatad cynllunio 14C190G.

   ii. Rhyd Fawr, Trefor.
   Agoriad newydd wedi ei gwblhau. Cerrig mawr wedi ei paentio yn wyn a bolards ar y ffin glaswellt. Mae yn tynnu llygaid tramwy pan yn mynd heibio (Peryglus)
   Yn dilyn ymchwiliad o "aerial images" fod y fynedfa i`r cae yn fynediad hanesyddol y perchennog wedi gwneud diwygiadau i`r fynedfa er mwyn gwella diogelwch ar y briffordd. Gofyn am gais cynllunio i rheoleiddio y mater gan y perchennog.
   Adran Priffyrdd wedi cadarnhau nad yw y cerrig ar y glaswellt yn cael effaith ar ddiogelwch y briffordd.

   iii. Rhyd Caradog. Llandrygarn.
   Perchennog Newydd. Llawer o weithgareddau yn cymryd lle. (Codwyd hwn gan y Cyng Sirol)
   Yn ystod ymweliad gwelwyd bod yr eiddo wrthi`n cael ei adnewyddu ac nad oedd modd byw yn yr annedd. Carafan sefydlog wedi`i leoli yn ystod y gwaith adnewyddu.
   Adeilad wedi`i leoli ar dir ger y ty er mwyn darparu swyddfa i weithio o gartref. Cadarnahad bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio gan ddeiliaid yr eiddo ac ni fydd unrhyw gwsmeriaid yn ymweld ar safle.
   Mae angen caniatad cynllunio ar gyfer lleoli`r uned yn y lleoliad hwn. Gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio yn gysylltiedig a`r prif annedd ac wedi ei leoli ar ol troed hen sied, cadarnhau buasai cais i greu estyniad i`r cwrtil a cadw yr adeilad yn gallu cael ei gefnogi. Gofyn i`r perchennog am gais i reoli y mater.

   iv. Tyn Pwll, Tynlon.
   Y Perchennog wedi ei gynghori bod angen caniatad cynllunio i gadw yr adeiladau ar y safle. Nid oes achos amlwg o niwed i amwynder cyhoeddus o ganlyniad i`r hyn a welwyd fel torriad technegol. Barn debygol y byddai caniatad cynllunio ol-weithredol yn cael ei roi. Felly nid oes cyfiawnhad i`r Cyngor Sir gymryd camau gorfodi cynllunio yn yr achos hwn.

Ydi yr atebion yma yn dderbyniol i`r Cyngor Cymdeithas. Mae pethau yn gweithio yn hollol groes gwneud y gwaith gyntaf a mynd am ganiatad cynllunio a`r ol cwyn i`r Adran gorfodaeth. A gweld wedyn bod caniatad yw gael.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Cyfarwyddwr Addysg. Rhys H. Hughes.
   Ymgynghoriad Statudol - Gostwng oed mynediad Ysgol Corn Hir, Llangefni.
   Cychwyn 6ed Mai hyd at 12.00 ar y 20ed Mehefin 2022.
   https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau-cyfredol/Ymgynghoriad-Gostwng-oed-mynediad-Ysgol-Corn-Hir.aspx
   Derbyn. dim yn ymwneud a ardal Bodffordd.

6. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   FW: Datganiad Croesawu Cyhoeddiad am Safleoedd Rheoli Ffin. Vaughan Gethin y camau nesaf er mwyn sefydlu safle rheoli ffin arfaethedig yng Nghaergybi.
   https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-safleoedd-rheoli-ffin
   Dim sylwu gan y Cynghorwyr, cadw mewn golwg.

7. Adran Priffyrdd. Alun Roberts.
   Lon Capel Seion, Llandrygarn. Dim bwriad gweithredu yn ymhellach.
   Cais o greu safleoedd pasio wedi cael ei godi yn flaenorol gan Mrs Oldfield, Bryn Drain, Llandrygarn gyda`r Cynghorwyr Sirol. Ymateb ar y pryd esboniwyd fod pwyslais ar gynnal rhwydwaith priffyrdd presennol yn hytrach na edrych ar welliannau a gwariant ychwanegol. Man pasio newydd yn costio tua £4,000 i £5,000.
   Mae safleoedd pasio yn cael eu gosod fel rhan o amodau ceisiadau cynllunio ond nid dyma`r sefyllfa ar y lon yn Llandrygarn.
   Ar hyn o bryd nid oes bwriad gweithredu ymhellach ar y cais i osod mannau pasio ar y lon yma. Ond os bydd unrhyw wybodaeth bellach mae croeso cysylltu.
   Cyng D T Roberts yn meddwl buasai cael rhyw lwythyn o gerrig o`r Chwarel yn helpu trwy ei rhoi yn y man pasio sydd yna nawr. Efallai buasai y Cyngor Cymdeithas yn talu? (Er nad yw`r Cyngor Sir o`r un feddwl a ni, maen`t yn negyddol)

8. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad: Plannu 4.000 o goed fel rhan o brosiect arloesol i helpu fynd i`r afael a newid hinsawdd.
   Disgyblion o Ysgolion David Hughes, Gyfyn Llangefni, Brynsiencyn,Kingsland, Y Ffridd, Penysarn, Llanfaechell a Rhyd y Llan wedi plannu 500 yn eu hysgolion.
   Prosiect ei arwain gan Dim Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Cyngor yn dilyn buddsoddiad o £10,000. Defnyddiwyd y dull Miyawaki i blannu`r coed (dull Siapaneaidd)
   Rhagor o wybodaeth Lee Jones, Uned Gyfathrebu 01248 752129.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth. Cadw mewn golwg.

9. Adran Priffyrdd - Steve Jones.
   Mrs Catherine Griffiths. 20 Cae`r Delyn, Bodffordd.
   Dwr yn gorlifo oddi ar y safle newydd i ardd Mrs Griffiths.
   Y Clerc wedi cael cadarnhad gan yr Adran Priffyrdd (Steve Jones) fod y mater wedi ei cael ei ddatrys. Mae gwariant mwy ar y traenio wedi ei wneud. Mae croeso nawr i Mrs Griffiths gysysllu a Mr Jones.
   Un peth yn dda mae Clerc y Cyngor Cymdeithas wedi cael canlyniad i`r broblam, mwy na gafwyd gan y Cynghorydd Sirol ar Aelod Cynulliad.

GOHEBIAETH (ARALL)

10. Cae Chwarae - Diweddaraf gan Gaynor Jones.
    Gwaith trwsio a newid y siglen yn y Cae Chwarae yn cychwyn ar 16eg Mai gyda`r gobaith o allu cwblhau y lloriau yr wythnos wedyn. Y Ffens wedi ei thrwsio ac yn barod yw pheintio.
    Anfon holidau`r allan yn fuan i`r plant ysgol a`r pentref i holi beth arall fuasent yn hoffi ei weld fel offer newydd.
    Balch iawn fod y Cyngor yn cael ei gadw yn y pictiwr.

RHODDION.

11. Dim.

PLWYFOL.

12. Cyfethol Cynghorwyr Newydd.
    Cafwyd pump enw ymlaen trwy e-bost.
    Tair sedd wag Ward Heneglwys. Glyn Jones, R G Parry a W R Parry.
    Dwy sedd wag Ward Llandrygarn. D T Roberts, Non Dafydd.
    Trafodwyd gyda rhai o`r ychydig Gynghorwyr yn barod i dderbyn yn en bloc.

Cyng J Evans yn gwrthwynebu r`oedd ganddo ddwy ferch yn Bodffordd hefo diddordeb i rhoi ei henwau ymlaen (Heneglwys) ond ddim yn gwybod sut er bod yr hysbysiad i gael ar y Wefan. Ni chafwyd wybod ei henwau, Er dywedodd ei bod un yn ffrind i Cyng Mrs L Roberts.
R`oedd Cyng J E Lewis hefo llyfr rheolau yn ei law ac yn son am ymestyn yr hysbysiad. Rhoi yn yr hysbysford yn Bodffordd nid oes un yn Llandrygarn.
Cyng J Evans yn cynnig rhoi hysbysiad hyd ddiwedd y mis. Cyng J E Lewis yn eilio.
Enwau yr holl geisiadau (Heneglwys) i'w cadw yn y Cyngor, ac nid i'w darlledu y tu allan yn y pentref.

Seddau gwag Llandrygarn, Etholwyd D T Roberts (Mynydd Mwyn) a Non Dafydd (Beudy Mwyn) Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Miss B Owen Ni chafwyd gwrthwynebiad.

13. Awdit Mewnol. Y Cyngor yn derbyn Mr A J Foulkes i wneud yn gwaith am 2021/22. Yr un pris o £100. Unfrydol.

14. Ni fydd unrhyw fusnes arall yn cael ei drafod ar y noson. Cyfarfod nesaf ar y rhaglen. (Argyfwng yn unig. Disgresiwn y Cadeirydd.)
Anfon i'r Clerc drwy'r post neu e-bost. (Dim dros y ffon)

MATERION ARIANNOL:
15. Cyfrif Rhedegol £10,021.66
Mynwent Gymunedol £6,890.00. (Grant Claddu CSYM £1,000.)

TALIADAU:
16. Clerc £250.00.

D Owen (Clerc)